# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 39. RHIF 12 MAI 2018 50c


# Gŵyl Dewi Cymry Lerpwl 2018

*Ar noson Gŵyl Ddewi (1 Mawrth 2018) yng Nghlwb Golff Woolton daeth criw da i ddathlu, ond methodd y Gŵr Gwadd oherwydd y tywydd garw a mentro o'i gartref ger Caerdydd, a'r bore hwnnw derbyniodd Dr. D. Ben Rees y newydd. Nid oedd dewis gan y Pwyllgor ond pwyso arno i fod yn Ŵr Gwadd am 2018.*



*Dr. D. Ben Rees yn ei araith*



*Nan Hughes Parry yn diolch*



*Teulu y diweddar David Morris o Kirby*



*Alun Davies (Trysorydd y Gymdeithas Gymraeg)*





*Mike Farnworth a Guto Rowlands (Bangor)*



*David Mawdsley ac Anne M. Jones*

*Lluniau o gamera Dr. John G. Williams*

**YN Y RHIFYN HWN -**

Golygyddol
(Gogledd Iwerddon a Bregist)
Cofio Bill McEvoy, Iris Hughes Jones a Nancy Jones.
Colofn y Myfyrwyr.
Newyddion Bethania, Bethel, Cymry Lerpwl, Cymry Birkenhead.

**Golygyddol**

# Gogledd Iwerddon a Bregsit - *gan D. Ben Rees*

Unwaith erioed y bum yng Ngogledd Iwerddon a hynny fel darlithydd mewn Ysgol Undydd yn ninas Belfast. Yr oeddwn yn aros gyda gweinidog Protestannaidd ac yr oedd wal ei ardd yn ffinio gyda gardd Ian Paisley a wnaeth gymaint o ddrwg o 1960 i 2000 yng Ngogledd Iwerddon! Daeth y rhyfel gartref i ben ar Ddydd Gwener y Groglith 1998 ar ôl deg mlynedd ar hugain o frwydro gwaedlyd. Y "Troubles" fel y gelwid cyfnod y dyddiau diflas pryd y lladdwyd 3,500 o bobl, y mwyafrif helaeth yn ddi-euog ac yn ddiniwed. Pan lofnododd Tony Blair, y Prif Weinidog, dogfen yr Heddwch, dywedodd fod hynny yn un o'r ychydig adegau yr oedd ef yn 'gwbl ddedwydd, wedi ei blesio, ac yn falch o'i ymroddiad'. Ac eto ugain mlynedd yn ddiweddarach nid yw'r sefyllfa fel ag y dylai fod. Y mae'r Cynulliad, y Stormont, heb aelodau yn gweithredu. Telir hwy i aros adref am fod plaid Paisley yn methu rhoddi'r sylw haeddiannol i'r Wyddeleg fel iaith bwysig i'r Gwyddel ac i ninnau y Celtiaid. Methaf ddeall yr ystyfnigrwydd ar ei rhan fel unoliaethwyr.

Y mae'r ifanc yn Belfast yn methu a deall hefyd y gwrthwynebiad gan fod carfan dda ohonynt yn ymhyfrydu yn yr iaith Wyddeleg. Y gwir yw fod pobl dros 55 oed yn arddel y berthynas Brydeinig, rhai rhwng 30 a 55 oed yn arddel eu bod yn bobl Gogledd Iwerddon, a'r ifanc yn arddel y bywyd Gwyddelig.

Ond y gwir yw fod Bregsit wedi dryllio undeb Gogledd Iwerddon. Yn ôl cytundeb Gwener y Groglith yr oedd Gogledd Iwerddon fel Iwerddon ei hun yn bartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd. Ond ar 29 Mawrth 2019 bydd hynny yn dod i ben. Yn 2016 dywedodd yr Uchel Lys yn Belfast na fyddai Bregsit yn gwneud y cytundeb yn ddi-rym fel y dadleuai rhai. Ond yn sicr y mae'r sefyllfa mewn blwyddyn yn mynd i gymhlethu'r  berthynas rhwng Prydain ag Iwerddon â Gogledd Iwerddon.

Y broblem fawr yw'r ffin ac nid yw Mrs T. May wedi llwyddo i fynegi ei hun yn ddealladwy ar y mater hwn. Dadleuai ein bod ni yn gadael y cyfan ar ôl ac eto ni fydd rhwystr o fath yn y byd ar y ffin rhwng De Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Dadleua fod y dechnoleg a welir ar bont newydd Runcorn yn ddigonol i'r ffin a fodola am dri chan milltir. Ond nid yw'r Undeb Ewropeaidd yn cytuno am nad ydynt wedi ei argyhoeddi o'r dadleuon a gyflwynwyd. Ond fel y dywed un sylwebydd cyfoes:

*If Britain leaves the single market and diverges from the regulatory standards, goods crossing the border would need to be checked*.

I David Davis, y prif berson o ochr Prydain yn y drafodaeth, fel wel ef yr ateb yn yr hyn a ddigwydd ar y ffin rhwng yr Unol Daleithiau a Canada. Ond y mae Mr. Varadkar, Prif Weinidog Iwerddon, yn bendant yn ei wrthwynebiad i'r syniad hwn. Dywedodd:

*A Canada style crossing, one with 'people in uniforms with arms and dogs', is 'not a solution' [Ireland] can possibly entertain*. Llefarodd y geiriau hyn ar ôl Gŵyl Ddewi eleni.

Y gwir yw fod dyddiau uno Gogledd Iwerddon a De Iwerddon wedi cyrraedd. Hynny yw y gwir ateb. Gellir deall agwedd Sinn Fein sydd am alw am referendwm i ystyried Undeb rhwng y ddwy ran o'r ynys. Mater o amser ydyw.

Y mae'r gymdeithas Babyddol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn a'r Protestaniaid yn colli poblogaeth trwy ecsodus o'r rhanbarth a marwolaethau yn ogystal a phenderfyniad i reoli eu hil. Yn Mawrth 2017 daeth Sinn Fein o fewn dwy fil o bleidleisiau i gael yr oruchafiaeth ar blaid unllygeidiog Paisley, y DUP sydd yn cadw Mrs May yn Downing Street ar ôl iddi drosglwyddo swm sylweddol o arian i'w cadw hwy yn hapus. Ar hyn o bryd y mae 30% o bobl Gogledd Iwerddon o blaid uno Gogledd a De Iwerddon, hynny yw cyn i Bregsit ddigwydd. Unwaith y digwydd Bregsit bydd y nifer yn cynyddu yn sylweddol tuag at 50% o'r boblogaeth.

Un peth yn sicr yw na all Iwerddon Rydd roddi gymaint o arian i Ogledd Iwerddon ag a lwydda y Toriaid o San Steffan. **Y mae Llywodraeth San Steffan yn trosglwyddo deg biliwn o bunnoedd (£10bn) o sybsidi i Ogledd Iwerddon. Druan o Gymru.** Caiff hi ei bychanu a'i chadw yn dlawd. Ond y mae Bregsit yn mynd i newid y sefyllfa yn gyfangwbl. Ni allwn anwybyddu y ddadl hon, os medrwch, anfonwch eich dadl i'r *Angor*.

# Gŵyl o Ddiolch am 70 mlynedd o Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

## Sadwrn a Sul, 7-8 Gorffennaf 2018

## Bore Sadwrn 7 Gorffennaf

**yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl**

ceir Sesiwn yn Gymraeg (bydd cyfieithydd ar gael) o 11.30 i 1.15

**10.30-11.15 –** Darlith gyntaf. Aneurin Bevan yn creu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Gorffennaf 1948 gan y Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees.

**11.15 i 11.45** – Seibiant i gael lluniaeth ysgafn

**11.45 - 1.15** – Sesiwn o dan ofal Dr. Mari Lloyd Williams, Prifysgol Lerpwl, Dr. Rhys Davies, Ysbytai Gwynedd a Aintree a Dr. John G. Williams yn egluro y newidiadau a gymerodd le mewn meddygaeth o 1948 i 2018.

## Nos Sadwrn am 7.30

**yng Nghapel Eglwys Fethodistaidd, Elm Hall Drive, Lerpwl**

**CYNGERDD** (rhagor o fanylion y tro nesaf).

## Sul, Gorffennaf 8

**Oedfa o Ddiolch am y Gwasanaeth Iechyd** yng Nghapel Bethel, Lerpwl.

<u>*Cennad:*</u> Parchedig Ddr. Goronwy Prys Owen, Bala.

***Trefnir y cyfan gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***



***Aneurin Bevan***

*Coffâd*

# Mr. William Andrew McEvoy

## (1927-2018), Mossley Hill, Lerpwl

Boduan oedd y gair a ddeuai yn gyson o enau Bill McEvoy, canys yno y ganwyd ef ar 15 Hydref 1927 ac yno y treuliodd blynyddoedd ei lecyndod, yr ardal a'i mowldiodd yn Gymro cadarn a chefnogol. Mewn cyfweliad yng Nghymdeithas Lenyddol Eglwys Bethel, Heathfield Road ryw dair blynedd yn ôl cawsom ein swyno gan ei atgofion am ei gyfoeswyr a'r cymeriadau, ei deulu, a'i chwaraeon a'r oriau a dreuliodd yn dringo Garn Boduan, a gorwedd ar draeth Porthdinllaen, a swyn pentrefi cyfagos fel Nefyn, Edern a Morfa Nefyn. Cysylltai yn gyson y blynyddoedd diwethaf hyn gyda Chymry gwlatgar Llŷn, fel Gareth Neigwl, un o golofnwyr y papur bro, *Llanw Llŷn*, a byddwn i yn cael yn gyson erthyglau difyr o'r cyhoeddiad hwnnw.

O Boduan cafodd fynediad i Ysgol Ramdeg Pwllheli lle y bu'n ffodus o gael fel athro John Gwilym Jones (1904-88), un o ddau brif ddramodydd Cymraeg yr ugeinfed ganrif. Yr oedd ei gyfrol *Y Goeden Eirin* wedi apelio yn fawr at Bill, ac ar ôl iddo adael ysgol pan oedd Bill yn gweithio yn Llundain, cadwodd John Gwilym Jones mewn cysylltiad ag ef. Pan ddeuai i lawr i Lundain byddai yn gwahodd ei hen ddisgybl i ymuno ag ef i weld drama yn un o theatrau'r West End a chael pryd o fwyd gyda'i gilydd.

Ymunodd Bill McEvoy â'r Fyddin i wneud ei wasanaeth cenedlaethol a bu allan yn Cenia ar gyfandir Affrig. Manteisiodd yn fawr yn y cyfnod hwn gan arbenigo ar cartograffi (*cartography*) a dod yn gryn feistr ar gynllunio mapiau swyddogol y Llywodraeth, Map Ordnans fel y'i gelwid. Ar ôl gorffen y ddwy flynedd ymunodd gyda Ordnans Survey yn ninas Bryste ac yna symud i swydd gyffelyb yn Lerpwl. Yr oedd hyn yn nechrau'r pum degau pryd y daeth nifer o rai eraill o wlad Llŷn i Lerpwl. Ac yn Clwb y Cymry yn Upper Parliament Street y daeth i gyfarfyddiad â Mona Jones, 80 Bartlett Street, merch Mr a Mrs John Owen, Wavertree.

Ar ôl priodi aeth y ddau i fyw i Fairfield. Byddai Mona yn teithio i Gapel Heathfield Road lle y magwyd hi, a Bill yn mynychu capel cyfagos iddo, sef Capel y Bedyddwyr Cymraeg yn Edge Lane. Daeth yn aelod yn ystod gweinidogaeth y Parchedig I. Cyril Jones, a bu'n selog ei gefnogaeth yn yr holl weithgarwch oedd yn deillio o'r Capel. Yr oedd ef a Ken Williams a Rolly Pritchard ymysg y dynion a gefnogai y capel, a chofiai Bill, Ken Pritchard yn dweud ei adnod ar fore Sul yn y Sêt Fawr. Byddai Bill yn barod i gefnogi y dramâu a berfformiwyd ar lwyfan festri Capel cyfagos, Capel MC Edge Lane.

Ganwyd mab iddynt, Ian yn 1959 ac



yna yn 1964 Paul, ac yn 1970 symudodd y teulu i fyw i Rockside, Mossley Hill. Cafodd swydd gyfrifol fel syrfewr gan Gorfforaeth Lerpwl ac ymddeolodd yn 1987 gan fod ganddo ddiddordeb mawr ym myd mabolgampau. Bu yn weithgar tu hwnt fel marciwr (*marksman*) ac yn un o hoelion wyth y Liverpool Harriers. Yr oedd Ian yn redwr oedd yn ennill gwobrau a thrwy iddo ef y daeth y tad yn frwdfrydig iawn a chyflawni cymaint dros fyd mabolgampau.

Ymddiddorodd ym mywyd y meibion a'r wyr Thomas a'i ferch yng nghyfraith. Bu marwolaeth ei briod Mona deg mlynedd yn ôl yn ergyd fawr, ond ymwrolodd gan roddi sylw arbennig i'r gymuned ym Methel a dod yn un o'r anwylaf o'r mynychwyr. Yr oedd ynŵr penderfynol, yn gwybod ei feddwl ei hun ac yn gwerthfawrogi agwedd gosmopolitan dinas Lerpwl. Yr oedd yn cadw yn heiny ac yn cerdded milltiroedd mewn dydd, byddai yn dod yn gyson o Rockside i Garth Drive ac i lyfrgell Allerton. Byddwn yn ei weld yn gyson yn Allerton Road. Byr fu ei gystudd a sylweddolai nad oedd yn cryfhau ac wedi colli yr archwaeth at fwyd, a daeth yr alwad iddo ar Fawrth 7fed.

Bu'r arwyl ar bnawn Mercher, (yr un diwrnod ag arwyl Syr Ken Dodd), 27 Mawrth yn Amlosgfa Springwood o dan fy ngofal, a talwyd teyrnged gan ei fab Paul o Ecuador. Ysgrifennodd un o Gymry Lerpwl, Glyn Davies, englyn i Lleyn –

*Heulwen ar hyd y glennydd – a haul hwyr*
*a'i liw ar y mynydd.*
*Felly Lleyn ar derfyn dydd,*
*Lle i enaid gael llonydd.*

Cytunai ein cyfaill cant y cant.

*D. Ben Rees*

## EGLWYS SEION, LAIRD STREET, PENBEDW

Cawsom ein bylchu yn fawr ym marwolaeth en harweinydd, Miss Iris Hughes Jones, Wallasey ar ôl y gwaeledd a'i goddiweddodd cyn y Nadolig. Bu hi yn storom arnom gan i Mrs Mair Rees Jones orfod gwynebu ar ysbyty a da oedd ei gweld hi allan yng ngwasanaeth coffa cofiadwy Iris o dan ofal ei chyfaill Dr. D. Ben Rees. Yr ydym yn awyddus i gyfarfod ar bnawn Sul yn Seion a da gweld nifer o blith y gynulleidfa yn cynorthwyo yn y trefniadau. Y mae Mrs Marged Jones, Rhuthun, ein blaenores am baratoi anerchiad ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a ddaw allan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.




*Y diweddar Iris Hughes Jones, Olwen Jones, Mair Rees Jones a Gwyn Jones yn Wrecsam yn 2017 pan y llongyfarchwyd Iris am ddeugain mlynedd fel blaenor yr enwad Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cynrychiolwyd ein heglwys yn arwyl Miss Iris Hughes Jones, Wallasey yn Seion, Laird Street ar 29 Mawrth gan Marian a John P. Lyons. Byddai Iris yn dod yn flynyddol atom i Bethania i drosglwyddo y newyddion da a byddem fel cynulleidfa yn gwerthfawrogi ei pharatoad a'i chyflwyniad. Bu Miss Margaret Rowlands, Waterloo am driniaeth ar ei llygaid a da oedd ei gweld yn yr oedfa ar Sul y Blodau. Y mae cryn ddisgwyl am ailargraffiad o gyfrfol ddwyieithog *Cylch yr Amserau*. Bu'r awdur yn edrych dros y broflen â'n gweinidog, cyhoeddwr y gyfrol yn ogystal. Argreffir y gyfrol yn Ne Cymru ac y mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers pan gyhoeddwyd y gyfrol gyntaf. Balch oeddem o gael Mrs Meinwen Rees yn ein plith ar Sul y Blodau ar ôl ei chaethiwed yn ddiweddar, ac anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Menna Edwards, Blundellsands sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar. Meddyliwn am ein cleifion o ddydd i ddydd.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Roedd ein dathliad Gŵyl Ddewi eleni ar nos Iau, Mawrth 1af yng nghlwb Golff Woolton, ac er garwed y tywydd gaeafol a'n gŵr gwadd Mr. Wynford Elis Owen yn methu â dod o Gaerdydd oherwydd hynny, cawsom ddwy wledd arbennig iawn.

Roedd y bwyd a baratowyd ar ein cyfer at ddant pawb, ac mae'n diolch yn fawr iawn i Lilian, Gwenfil a Carys am drefnu'r cyfan a hulio'r byrddau mor chwaethus. Diolchwn yn bennaf i Dr. D. Ben Rees am gamu i'r adwy ar fyr rybudd o ychydig oriau i'n hannerch am gefndir a chyfraniad Dewi Sant i genedl y Cymru, ei waddol enfawr adawodd ar ei ôl, a'i bregeth olaf yn ein hannog i wneud y 'pethau bychain'.

Rhoddwyd rhestr o ddeg o "bethau bychain" y gallwn ninnau eu gwneud, cefnogi *Yr Angor* a chylchgronau eraill; llyfrau Cymraeg a recordiau Cymraeg ac i wylio S4C a gwrando ar Radio Cymru.

Er oerfel y tywydd oddi allan cawsom oll noson gynnes gartrefol yng nghwmni ein gilydd, a braf oedd gweld cymaint er fod saith a bwrcasodd tocynnau wedi methu dod atom oherwydd cyflwr y ffyrdd ar gyrion Lerpwl.

Ar yr 2il o Fawrth cynhaliwyd 'Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd' 2018 yn eglwys Bethel o dan adain Chwiorydd Mossley Hill ar y testun 'Mae Cread Duw yn dda iawn i gyd'. Paratowyd y rhaglen eleni gan Chwiorydd Cristnogol Swrinam ac maent yn ein hannog i garu'r greadigaeth sydd yn rhodd gan Dduw ac i ymrwymo i ofalu am Ei fyd mewn modd cyfrifol fel y cawn ninnau yn ein tro ei drosglwyddo i'n plant. Roedd cynrychiolwyr o'r eglwysi yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, Beryl Williams oedd yr arweinydd o Bethel gyda chyfraniad gan Pat, Carys a Nan, a Margaret Anwyl wrth yr organ. Daeth pawb i'r ganolfan ar y terfyn i gymdeithasu uwchben paned o de a theisen. Da oedd dod ynghyd fel chwiorydd yn cynrychioli'r byd.

Nos Lun 5 Mawrth seiat i drafod Y Grawys a chymeriadau'r Pasg gan ddilyn cyfrol Dr. D. Ben Rees 'Defosiwn Gŵyl y Pasg' (Chwilog 2016). Yn agoriad i'n myfyrdod darllenodd ein gweinidog weddi o'i lyfr a'i ymdriniaeth ar ymprydio cyfnod y Grawys. Beth yw ympryd? Amser nodedig i ni ymwadu â'r hunan, a rhoi cyfle i'r meddwl, yr enaid a'n hysbryd allu dod i adnabyddiaeth ohonom ein hunain. Rhoes cyfle i ni fel cynulleidfa yn ein tro i ddarllen y Gair am gymeriadau'r Pasg.



*Hel ysbwriel – gorchwyl grefyddol arall*



*Gofal am y Cread*

Does dim llawer o sôn am Mair, mam yr Iesu yn yr Efengylau, ar wahân i hanes y Geni, ei hymweliad â'r Deml ac wrth groes yr Iesu. Ceir mwy o sôn amdani yn y Koran nag yn y Beibl. Aed ymlaen i glodfori Iago, un o gymeriadau pwysicaf y Testament Newydd. Ef oedd arweinydd yr Eglwys yn Jerusalem a brawd yr Iesu. Yna, Joseph o Armiathea, yntau yn gyfrifol am osod corff yr Iesu mewn ogof a Nicodemus yn cyflawni y ddefod o eneinio y corff. Dau gymwynaswr.

Rhoddwyd cyfle i drafodaeth oedd yn fuddiol i'n paratoi ar Ŵyl y Pasg. Diolchwn i'n gweinidog am ei ddarpariaeth ar ein cyfer sydd yn amheuthun i ni oll. Daeth nifer dda ynghyd.

Nos Lun, 12 Mawrth cawsom gwmni tri yn adrodd hanes eu 'Dyddiau Ysgol Uwchradd'. Cyflwynodd Roderick Owen hwy yn eu tro. Ysgol Pwllheli neu County dre oedd ysgol Devida Broadbent. Cofiai y diwrnod cyntaf yn dda, mynd ar y bws o Nefyn ac wedi gwirioni o wisgo y wisg ysgol. Roedd bathodau rif ar y scarff yn bwysig iawn iddi, a chawsom ei weld ar ôl llawer o fynd a dod! Roedd mwyafrif o'r athrawon yn Gymry Cymraeg, ond Saesneg oedd y gwersi ar wahân i Ysgruthur a'r iaith Gymraeg. Roedd ffugenwau digri iawn i rai o'r athrawon – gwell peidio eu hailhadrodd, ond gwyddai yr agorwr hwy. Dyma eiriau Devida ei hun *"Ddysgais i fawr o ddim yno, dim ond synfyfyrio drwy'r ffenestr ar yr harbwr a Bae Ceredigion. Gwell gen i oedd chwarae na dysgu."* Prysurodd i ddweud, nid bai yr ysgol na'r athrawon oedd hynny. Rhestrodd lawer o bobl bwysig aeth drwy yr ysgol hon, yn feirdd, cantorion ac awduron.

Clywsom y dywediad 'Cymru, Lloegr a Llanrwst' ac i Ysgol Rad Llanrwst yr aeth Norma Owen. Syr John Wyn o Wydr roddodd arian i adeiladu ysgol yn 1610. Bu enwau amlwg drwy'r ysgol hon hefyd fel Jac Glan Gors, Ieuan Glan

Geirionnydd, T. Glyn Davies, y bardd a enillodd y Goron yn y Genedlaethol, yr athro John Gwynfor Jones, Dr. Robin Gwyndaf a Dafydd Elis-Thomas ac eraill. Bu dylanwad llawer o athrawon arni gan enwi Eigra Lewis Roberts, Buddug Roberts, Nansi Watcyn Jones. Y llyfr argraffodd fwyaf arni yn yr ysgol oedd cyfrol o farddoniaeth *Cerddi'r Gaeaf* o waith R. Williams Parry. Roedd yr athrawon i gyd yn gwisgo gŵn a'r plant yn eu 'hiwnifform'. I gloi ei sgwrs ac i grynhoi, dyma ei hargraff: "Amser hapus, difyr, dysgu a mwynhau."

Bu raid i Dr. Arthur Thomas gloddio i'r gorffennol pell i ddwyn i gof atgofion o'i ddyddiau ysgol yn 'Queen Elizabeth School for Boys' yng Nghaerfyrddin. Cofiai y dydd cyntaf yno, mynd i'r ysgol o Llanddarog ar y bws yn gwisgo ei ddillad newydd a 'satchel' ar ei gefn i gario'r llyfrau. Saesneg oedd iaith ei ysgol yntau ond y mwyafrif o'r athrawon yn siarad Cymraeg – ond byth gyda'r plant. Rygbi oedd gêm swyddogol yr ysgol a bu llawer o gyn-ddisgyblion yn chwarae dros Gymru, a dylanwad yr athro Cymraeg Carwyn James yn fawr ar yr ysgol. Byddai Eisteddfod yn cael ei chynnal bob blwyddyn a dyma arwyddair yr ysgol *"Nid da lle gellir gwell'*. Derbyniodd Arthur flynyddoedd pleserus yn yr ysgol a'i ddyled yn fawr i'w athrawon roddodd sylfaen gadarn iddo symud ymlaen i dderbyn addysg Prifysgol. Roedd llawer yn gyffredin yn y dair ysgol a phlant yw plant ym mhob oes. Diolch i Roderick am lywyddu – noson arbrofol a difyr ddaeth a llawer o atgofion dyddiau ysgol yn ôl i ni y gwrandawyr. Noson gwerth ei gael rywdro eto ond gan fod deunydd gennym.

Bore Sul, 18 Mawrth cafwyd oedfa gymun o dan ofal ein gweinidog Dr. D. Ben Rees, ac yna'n dilyn yn y ganolfan paned o goffi a theisen a chyfle i Dr. Rees ddymuno'n dda i Mrs Blodwen Prowting yn ei chartref newydd ym Mhenbedw, ac i ddiolch iddi a'i diweddar briod Sam Prowting am ei chymwynasau i Eglwys Bethel gan wneud hynny gyda gwên siriol bob amser.

Cyflwynwyd anrheg fechan iddi ar ein rhan fel arwydd o'n gwerthfawrogiad a'n cyfeillgarwch. Ymatebodd yn ddiolchgar ac erbyn hyn symudodd ar draws y Mersey. Addawodd ddod yn ôl, pan fydd yna gyfle i gymdeithas Bethel.

Nos Lun, 26 Mawrth noson pentymor y Gymdeithas Lenyddol a Dr. Pat Williams yn ein harwain i 'Fyfyrdod ar y Pasg' gyda chymorth Cantorion Bethel. Cyflwynwyd hi gan y llywydd Dr. D. Ben Rees a chan ddiolch iddi am ei holl weithgarwch a'i hymroddiad yn ein plith. O gerdded i mewn i'r ganolfan, trawiadol iawn oedd gweld darlun ar y sgrin o goron ddrain ar feibl agored, a'r côr yn agor ein myfyrdod drwy ganu'r emyn *"O! fy Iesu, O fy mhrynwr"*. Dethlir Gŵyl y Pasg yn wahanol mewn amryw o wledydd, ac adroddodd Pat am ei phrofiad mewn eglwys fechan yn y wlad yn Ffrainc ar nos Sadwrn y Pasg a'r gynulleidfa yn cymryd rhan mewn gwasanaeth syml offeiriadol – pob un i oleuo y gannwyll, nesaf ato gan ddymuno i oleuni Crist ddileu y tywyllwch dudew. Ymlaen wedyn i sôn am brofiad Norma a Roderick Owen yn Hwngari dros Wyl y Pasg yn 1989 a'r mur rhwng y dwyrain a'r gorllewin wedi ei chwalu. Pawb yno yn paratoi y bwyd yn y cartref, o gig oen, bara, caws a gwin a'r teuluoedd yn mynd i'r eglwys hefo'i basgeidiau o fwyd a bwyta'r danteithion yn yr eglwys.

Yna, gwelsom ddarlun o'r eglwys Uniongred Dwyrain yn Lerpwl a'r gynulleidfa yn sefyll am dair awr yng ngwasanaeth Gwener y Groglith. Mae eu Pasg hwy ar amser gwahanol, yn dilyn y calendr Julian. Hwythau yn bwyta o'r bara a chuddio'r wyau cochion (wedi eu lliwio) yn y toes. Yna cawsom Cantorion Bethel yn canu'r emyn gorfoleddus *'Wrth edrych Iesu ar dy groes'*. Roedd Dr. Pat Williams yn ein hannog i fynd i weld 'Gorsafoedd y Groes; yn mynachdy Sant Aspah, ger Treffynnon – man i ymdawelu a myfyrio fel y gwnaeth Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain.

Mae'r Pasg yn cychwyn gyda'r Grawys, a gwelwyd llun o'r Iesu yn ymprydio yn yr anialwch. Hwn i'w weld mewn oriel yn Moscow oddi wrth y flwyddyn 1872. Yna cawsom ein harwain i'r Wythnos Sanctaidd a Sul y Blodau, a'r darlun yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain o Iesu Grist yn marchogaeth i Jerusalem ar asyn sydd yn symbol o ostyngeiddrwydd yn crynhoi y cyfan. Yna aeth yr Iesu i aros ym Methania gyda Mair a Martha a darlun o'r amgylchiad hwnnw o waith Vergilius (mewn amgueddfa yn yr Hague), ac ymlaen wedyn i lanhau'r Deml a gwelir darlun o'r amgylchiad hwnnw yn yr Oriel

# GWEDDI Y CHWIORYDD

***'A heri grontapu di gado meki bun doro, dóro.'***

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd o dan nawdd 'Churches together in Mossley Hill, Lerpwl' yn Eglwys Bethel ar Fawrth 2ail. Merched Surinam oedd yn gyfrifol am gynllunio'r gwasanaeth. Thema y gwasanaeth oedd y frwydr i amddiffyn y byd yr ydym wedi ei gael gan Duw oddiwrth llygredd a di faterwch dynoliaeth. Gofynnwyd i ni gyd nodi un peth a gallem yn ei wneud i amddiffyn yr amgylchfyd. Ateb Bethel oedd archebu biniau sbwriel ychwanegol i ail gylchu gwastraff. Paratowyd te swmpus wedi'r oedfa lwyddianus.

Gwir yw y gair fod 'popeth a greodd Duw yn dda iawn' neu yn iaith Suriname *'A heri grontapu di gado meki bun doro, dóro.'*



***Beryl Williams, y Llywydd***



***Cynrychiolwyr o Eglwysi Mossley Hill yn Bethel***

Genedlaethol yn Llundain o waith Marcelloa Venusti (1550).

Offrymodd Dr. Pat weddi o'r gyfrol *Defosiwn y Pasg* gan fynd ymlaen i hanes 'Melltithio'r ffigysbren' a'r darlun hwn yn dangos dim ffrwyth ar y pren yn symbol o farwolaeth. Yna darlun arall yn dilyn o'r Swper Olaf gan Dieric Bouts (1464-68). Gwledd y Pasg i'r Iddewon oedd oen gwryw, y bara croyw a llysiau chwerw. Y côr yn canu emyn odidog o waith John Roberts Llanfwrog ar dôn Joseph Parry sef *'Cefais olwg ar dy ogoniant'*. Y darlun nesaf oedd o Grist yn cael ei fradychu a'i ddal ac yn yr Amgueddfa Gelf yn Auckland. Darlun ydyw o Grist o flaen Caiaffas a Peilat yn golchi ei ddwylaw. Y ddau ddarlun o waith yr artist M. Stomer. Yn y Fatican, Rhufain ceir campweithiau Caravaggio. Mae llun 'y merched wrth y Groes' a 'Claddedgiaeth Crist' yn tynnu eich sylw. I gloi ein myfyrdod canodd y côr yr emyn Elfed, sef *'Disgleiria golau'r Groes'*. Diolch i Dr. Pat Williams am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer, gwaith oriau lawer o ymchwil manwl a'r cyfan yn dwyn i gof i ni ddyddiau olaf yr Iesu ar y ddaear. Hwn yn baratoad ar gyfer Sul y Pasg. Diolch i'r côr am eu cyfraniad eneiniedig hwythau. Buont yn paratoi yn ddiwyd am wythnosau o dan arweinaid Mr. R. Ifor Griffith a Margaret Anwyl Williams wrth yr offeryn. Diolch i Lilian, Gwenfil, Carys ag Enid am fwrdd llawn o ddanteithion y Pasg, i gloi'r noson a chawsom gymdeithasu am bron i awr arall.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. Bill McEvoy, Mossley Hill yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl ar y 7fed o Fawrth a bu ei arwyl yn Amlosgfa Springwood pnawn Mercher, Mawrth 28 yn 90 oed.

Gŵr heini ydoedd o gorff, trwsiadus o wisg a chanddo sgwrs ddifyr bob amser, a blas penrhyn Lleyn ar ei gymeriad. Cydymdeimlwn â'i feibion Paul ag Ian, ei ŵyr Thomas a'i ferch yng nghyfraith Maribel. *(Gweler coffâd iddi gan ei weinidog, Dr. D. Ben Rees yn y rhifyn hwn o'r Angor)*.

Cyfarchion yr Eglwys atoch holl aelodau a charedigion gan obeithio i chwi i gyd dderbyn o fendithion y Pasg, ac ar ôl hirlwm y gaeaf. Braf yw cael gweld y ddaear yn ail-ymagor a'r blagur yn torri trwy'r pridd ac i weld eto eleni 'Wyrth Duw mewn rhagorwaith dail'.

## Gair i'r Tanysgrifwyr

***Y rhifyn hwn yw'r un olaf am y flwyddyn 2017/18 ac a wnaiff y rhai sydd heb anfon tâl am Yr Angor wneud hynny fel y gellir. Diolch am y gefnogaeth gref.***

# Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ar nos Wener, 2 Mawrth dyma ni 'n ymgynull unwaith eto i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi gyda chinio yn y Grove House, Wallasey. Wedi ein croesawu gan Mrs Eirwen Sargent, llywydd y noson, darllenodd neges oddi wrth ein llywydd anrhydeddus, Mrs Mair Jones, yn dymuno'n dda inni ac yn diolch am ddymuniadau da yn ystod ei gwaeledd.

Ar ôl cinio traddodiadol blasus cafwyd air gan y llywydd am hanes Dewi Sant a'i berthynas i Gymru'r unfed ganrif ar hugain. Pwysleisiodd ein dyled i'n nawddsant, nid yn unig am ein crefydd ond hefyd am ffyniant ein hiaith. Mae bodolaeth yr iaith Gyrnraeg ynghlwm â hyn. Talodd deyrnged yn lleol i Bwyllgor Etifeddiaeth Glannau Mersi am ymdrechion gwych i gadw Cymru a'r iaith ar y map trwy godi placiau glas i gofnodi Cymry o fri a'u cyfraniad i'n gwlad.

Cafodd Gŵyl Mimosa a Gŵyl Hedd Wyn sylw eang yn y cyfryngau ac wedi estyn gwybodaeth am Gymry drwy'r wlad. Fel Cymry ymhyfrydwn yn ein hetifeddiaeth a'i hysbysu i'n cymdogion.

Ein gŵr gwadd oedd Gwilym Bowen Rhys o Fethel, sy'n adnabyddus drwy ein gwlad fel cerddor o fri ym myd canu gwerin a chanu roc gyda '*Bandana*' a 'Plu'. Yn ei lais swynol, cryf a theimladwy, clywsom ganeuon gwerin traddodiadol, modern, a hunan gyfansoddiadau.



*Gwilym Bowen Rhys*

Gwnaed y diolchiadau gan Mr Arwel Evans gan ddatgan pleser pawb am noson arbennig o dda. Rhanodd gyda ni, gerdd am Dewi gan gyfaill i'w dad, Clifford Evans, Manceinion a fu farw yn ddiweddar. Diweddglo priodol i'n noson.

Yn absenoldeb y Parch John Barnet oherwydd gwaelodd, diolchwn i'r Parch Ddr E. Gwynne Parry, Heswall am "sefyll yn y bwlch" ar nos Sul, Mawrth 3ydd i gynnal ein gwasanaeth Gŵyl Dewi.

Gwnaed y darlleniadau gan Olwen Jones o Lyfr Esecial 37, adnodau 1-14, ac Iola, Marc 5, 24-34. Codwyd y testun o Efengyl Marc yn hanes y wraig gyda'r diferlif gwaed, "os cyffyrddaf â'i wisg Ef, iach fyddaf" . Thema'r Parchedig Gwynne Parry, oedd cyflwr capeli ac eglwysi Cyrnraeg yn ein dyddiau a'u hangen am atgyfodiad fel eiddo'r esgryrn sychion.

Cyfeiriodd at eiriau Hedd Wyn - "Gwae fi fy myw mewn oes mor dreng, A Duw ar drai ar orwel pell" os gwir yn y dyddiau hynny, mae cyflwr ein crefydd wedi dirywio bellach erbyn heddiw. A yw Cymru, fel y ferch yn yr hanes yn barod i "wario y cwbl sydd ganddi i gael iachâd"? Rhaid i Gymru ddyheu am atgyfodiad ysbrydol drwy gyffwrdd yn wisg Iesu Grist. Fel cenedl yr ydym wedi clywed amdano ond heb ei adnabod, ac heb i'n gwlad wynebu'r her, ni fydd capel nac eglwys yn y dyfodol. Rydym fel Cristnogion yn fodlon ar fywyd ysbrydol cyfforddus ac nid felly y ceir tyfiant na diwygiad.

"Dysg i'n ofni byw yn esmwyth" - dylai fod gweddi pob aelod o eglwys Crist. Mrs Iola Edwards oedd llywydd y noson, Terry O'Neill oedd yr organydd a gwnaed casgliad at gapel Seion, Penbedw.

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAI 2018



| | |
|---|---|
| Mrs Lilian Coulthard, Cressington | £25.00 |
| Cymdeithas Lenyddol Bethel | £30.00 |
| Mrs Heulwen Bott, Deganwy | £20.00 |
| Mrs Doris Thomas, Llangefni | £20.00 |
| Mrs Enfys Hughes, Brynteg | £11.00 |
| Mrs Eirwen Sergent, Penbedw | £25.00 |
| Mr a Mrs Clifford Bailey, Woolton | £31.00 |
| **Cyfanswm** | **£162.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# CWIS UN LLINELL

***a baratowyd gan Ken Williams***

## A) HEN A NEWYDD - OND PWY?

1. Cael hwn i newid ei enw (4)
2. Cael i hon hefyd i wneud yr un peth (5)
3. Do, fagwyd'n Gymru (7)
4. .... dyma hwn hefyd (7)
5. Mae hon yn dipyn o aden! (4)
6. Ac mae hon am dynnu ein sylw ni ato (6)
7. Cymro o Lundain (3)
8. Wedyn cawn weld ei bod yn eneth (5)
9. Bachgen, un ie, a enw iddo (5)
10. Mae hon o hyd yn onest a ffyddlon (5)

## B) GWNEUD GEIRIAU

| | C | |
|---|---|---|
| N | A | W |
| F | Y | R |
| D | E | I |

Gwnewch allan eiriau o'r llythrennau welir yma i gynnwys pump llythyren neu mwy. Y tro hwn i ddechrau yn unig â'r llythren 'C' a welir yn y sgwâr du. Mae un gair yn cynnwys y deg: tip fechan TEGWCH, y llythrennau i'w defnyddio ond unwaith. Mae yma yn agos i 50.

## C) GAIR AM AIR

**LLANWNDERWADNODYNADENW**

Gwnewch allan eiriau yn cynnwys TAIR LLYTHYREN neu mwy i redeg yn union ar ôl ei gilydd, e.e. Llan, llanw, awn. Mae yna 18.

Gweler yr atebion ar dudalen 12.

***Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor***

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Mehefin 2018 –** erbyn bore Mawrth, 1 Mai 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Gorffennaf 2018** erbyn bore Gwener, 1 Mehefin 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Awst/Medi 2018 –** erbyn bore Sul, 1 Gorffennaf, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11 o'r gloch ar ddydd Llun, 2 Gorffennaf, 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

Dros y 18 mis diwethaf mae
***Corau Cymru***
wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres
**HOFF EMYNAU**
yr un diweddaraf gan
Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CD yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth
***www.coraucymru.com***

# Cymdeithas Cymry Lerpwl

Cynhaliwyd ein swper Gŵyl Ddewi ar y cyd gyda Chymdeithas Lenyddol Bethel yng Nghlwb Golff Woolton ar nos Iau, Mawrth 1af. Oherwydd yr eira mawr a'r tywydd garw ni allodd y gŵr gwadd, Wynford Elis Owen, ddod atom o Gaerdydd. Cafwyd anerchiad addas a diddorol iawn gan ein Gweinidog ar Dewi Sant. Roedd y bwyd yn ardderchog a braf oedd cael cymdeithasu gyda'n gilydd. Er fod y tywydd yn aeafol ac anffafriol 'roedd pawb wedi mwynhau y noson.

Nos Fawrth ganlynol cawsom gwmni Alun Ffred Jones o Ddyffryn Nantlle yn sôn am 'Genesis Midfield' . Roedd ef yn un hanner o'r ddau oedd yn gyfrifol am ysgrifennu y gyfres radio a theledu lwyddiannus iawn yn ystod yr wyth a'r nawdegau am dîm pêl-droed aflwyddiannus sef 'C'mon Midffîld!'. Yr oedd hanes y tîm wedi cydio yn nychymyg y genedl. Diddorol clywed  sut y datblygodd y syniad o fod yn gyfres radio i fod yn gyfres teledu. Yn y diwedd fe wnaed tair cyfres radio, pump cyfres teledu, dwy ffilm , rhaglen Nadolig a llyfr ! Roedd Alun Ffred yn dilyn timau pêl-droed a rygbi a chwarae ychydig o bêl-droed pan oedd yn byw yn Llanuwchlyn yn y pumdegau, ond roedd yr un oedd yn cyd ysgrifennu y sgript, sef Mei Jones, wedi cael gyrfa fwy lewyrchus ar y cae pêl-droed. Roedd y cymeriadau yn y gyfres wedi eu selio, i ryw raddau, ar bobl yr oedd y ddau yn eu hadnabod. Daeth Mr. Picton, Wally, Tecs, George a Sandra yn bobl bwysig a diddorol i ddilynwyr tîm Bryn Coch a daeth dywediadau Mr Picton yn iconaidd  fel 'Paid a chwarae efo hwnna Harri!'. Ffilmwyd y gyfres mewn gwahanol leoliadau o amgylch Caernarfon fel Llanrug, Rhosgadfan, Tafarn y 'Newborough Arms' Bontnewydd, Gwesty'r Royal a chae pêldroed ar gyrion Caernarfon. Ni fu cyfres fel 'C'mon Midffîld!' ar y teledu wedyn - 'Na, no, never, byth !'

Ar Fawrth 13eg  cawsom gwmni Mr. Gethin Jones, un o'r offerynwyr yng Ngherddorfa Frenhinol y Ffilharmonic Lerpwl. Mae Gethin yn adran linynol y gerddorfa ac yn chwarae y sothgrwth (cello). Yn enedigol o Abertawe  mae wedi bod gyda'r cerddorfa am 34 mlynedd.Yn ogystal a chwarae a pherfformio gyda'r gerddorfa mae wedi ffurfio grŵp llinynnol 'St. Luke's Ensemble' ac mae'n gwneud llawer o waith yn  dysgu plant am gerddoriaeth ac offerynnau cerddorol. Cawsom hanes ei fywyd a chwaraeodd rai darnau a fu'n bwysig iddo yn ystod ei yrfa. Noson o adloniant mewn geiriau a cherddoriaeth ac roedd pawb wedi mwynhau y wledd a gawsom.

Y prynhawn canlynol aeth chwech ohonom o'r Gymdeithas i Theatr Clwyd i weld perfformiad o'r ddrama 'Y Tad' gan Theatr Genedlaethol Cymru. Trosiad i'r Gymraeg o 'Le Père' yw'r ddrama ac enillodd y trosiad gystadleuaeth 'Trosi drama i'r Gymraeg' yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2016. Mae'r ddrama wreiddiol wedi ei hysgrifennu gan Florian Zeller ac awdur y trosiad yw Geraint Løvgreen. Mae'r stori am ŵr sy'n methu deall yr hyn sydd yn digwydd iddo pan fo'i gof yn adfeilio, a merch sydd yn ceisio dygymod a salwch ei thad. Mae y Tad yn anghofus, yn dychmygu cymeriadau a bod pethau yn digwydd iddo ac yn hiraethu am ei ferch arall sydd wedi ei lladd. Cafwyd perfformiadau ardderchog gan yr actorion i gyd ac yn enwedig Dyfan Roberts, sef 'Y Tad'. Roeddym i gyd wedi mwynhau y cynhyrchiad.

Yng nghyfarfod olaf ond un y tymor yma ar Fawrth 20fed daeth yr awdures Bet Jones atom i sôn am 'Trefor, Lerpwl, Llangefni a'r Nant'. Mae Bet Jones yn enedigol o Drefor, wedi clywed llawer o sôn am fyw yn Lerpwl ac wedi ysgrifennu nofel am Llangefni a Nant Gwrtheyrn. Athrawes oedd Bet Jones ond mae bellach wedi ymddeol. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf 'Beti Bwt' yn 2008. Nofel yw hon am blentyndod mewn pentref chwarelyddol yn y pumdegau. Mae'n nofel  hunangofiannol. Mae ei hail nofel, 'Gadael Lennon', yn ddilyniant i 'Beti Bwt'. Mae'r nofel wedi ei lleoli yn Lerpwl yn yr amser pan oedd y 'Beatles' yn eu hanterth. Enillodd ei thrydedd nofel 'Craciau' wobr goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013. Mae gweithwyr yn ffracio yng Nghors Ddyga ar Ynys Môn ac yn ddirybudd mae daeargryn yn digwydd ac yn y nofel mae tref Llangefni yn cael ei dinistro! Mae Bet Jones yn hoffi ffilmiau 'who dun it', ac yn arbennig hanesion Agatha Christie. Mae yn penderfynu lleoli ei phedwaredd nofel yn Nant Gwrtheyrn. Mae criw o ddysgwyr yn cyfarfod yna am benwythnos ond mae llofrudd yn eu mysg. Fe ddaw yn eira mawr a does dim gobaith dianc oddi yno nac oddi wrth y llofrudd!! Darllenodd rannau o'i nofelau ac egluro i ni am rai  dylanwadau sydd wedi bod arni hi, a sut mae yn cael syniadau am ei nofelau. Cawsom wybod am yr holl waith ymchwil cyn fod yr ysgrifennu yn dechrau. Agoriad llygad i'r rhai ohonom nad ydym erioed wedi meddwl am ysgrifennu nofel.

# URDDO LLYWYDD NEWYDD HENADURIAETH GOGLEDD DDWYRAIN



***David Owens yn cael ei arwisgo fel Llywydd yr Henaduriaeth***

Urddwyd y Parchedig David Owens yn Llywydd newydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn ystod cyfarfod o'r Henaduriaeth yn Eglwys Capel y Groes, Wrecsam nos Fercher, Chwefror 21ain. Daeth tymor ei ragflaenydd, Gwyn Evans o Eglwys Weston Rhyn, Croesoswallt  i ben wedi ei anerchiad ymadawol  - anerchiad oedd yn crynhoi ei brofiad dros y flwyddyn fel llywydd ac yn amlinellu'r her o'n blaenau. Diolch a phob bendith i'r ddau ohonynt.

***John Williams***

## TEYRNGED I EMRYS A GWYNETH JONES

Nos Lun, 19eg o Fawrth, cefais wahoddiad i ymuno a phobl Rhuddlan i lansio llyfr am un o'i meibion adnabyddus sef Philip Jones Griffiths. Ysgrifenwyd llyfr i gofio amdano gan Ioan Roberts. Mae yn lyfr yn cynnwys lluniau o ryfel Fietnam, a dynnwyd gan Philip Jones Griffiths yn dangos dioddefaint i bobl ddiniwed, a llwyddodd i newid agweddau yn America yno.

Cyflwynwyd y llyfr er cof am Mam a Dad, sef Emrys a Gwyneth Jones. Hen Golwyn. Mae Ioan Roberts wedi ysgrifennu  *"Oni bai amdanynt nhw fuasai'r gyfrol hon ddim yn bod"*.

Mae yna ddau rheswm am hyn. Yn gyntaf - Dad (yn benodol) a  ddysgodd Philip Jones Griffiths i dynnu lluniau ac byddai y ddau yn crwydro aml i ddiwrnod gyda'u camerau. Yn ail - cyn i Ioan Roberts ddechrau ysgrifennu y llyfr, Dad roddodd ef mewn cysylltiad â Philip pan oedd y ffotograffydd yn gweithio yn Efrog Newydd.

Byddai Mam a Dad yn falch iawn o dderbyn yr anrhydedd yma.

***Wena Evans.***

*Coffâd*

# Miss Iris Hughes Jones

## (1932-2018), Wallasey



Yn Llyfr yr Actau, pennod 20, adnod 28 y mae gennym anogaeth yr Apostol Paul i eglwys Effeus: 'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd, y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn arolygwr drosto i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a enillodd ef â gwaed ei briod un'. Dymuniad Iris oedd fod yr Efengyl yn cael ei gyhoeddi yn ei harwyl ac ni wn i am well disgrifiad o'n chwaer, bu'n ofalus o'r praidd yn Wallasey a Laird Street a chafodd ei bendithio yn helaeth yn ei gwaith o fugeilio eglwys Duw yr hon a ddaeth inni trwy fuddugoliaeth y Pasg. Ac ar drothwy'r Pasg, addas iawn yw cyfeirio ein camre at yr hanfodion a fu yn gynhaliaeth bywyd ysbrydol ein hannwyl gydweithwraig.

Yn ble dechreuodd y daith i Iris? Wel yng nghartref nyrsio Craig Beuno, Bangor ar 6 Mawrth 1932 a'n gadawodd bron yr un dyddiad, 4 Mawrth 2018 ar aelwyd ei brawd Edgar Hughes Jones a fu mor ofalus ohoni. Rheini Iris ac Edgar oedd Huw a Kitty Jones o'r Waenfawr. Iris oedd yr hynaf a bu'n ofalus iawn pan ddaeth brawd iddi ar yr aelwyd.

Addysgwyd hi yn Ysgol Waenfawr ac ennill y 11+ i Ysgol Ramadeg Caernarfon, Ysgol Syr Hugh Owen, lle y dangosodd allu ac ymroddiad a gwneud llu o ffrindiau, nifer ohonynt fel hithau a ddaeth i fyw i lannau'r Mersi. Bu am addysg pellach yng Ngholeg y Brifysgol Gogledd Chymru, Bangor lle bu'n astudio Mathemateg a Saesneg cyn mentro i fyd athrawes ysgol.

Derbyniodd swydd yng Nghanoldir Lloegr yng nghanol y pumdegau, mewn Ysgol Ramadeg y Merched, Willehall ger Wolverhampton. Daeth i adnabod Capel y Presbyteriaid yn Wolverhampton ond yn niwedd y pumdegau a dechrau y chwedegau symudodd i Ysgol Uwchradd Speke, ysgol fawr a daeth dinas Lerpwl yn gartref iddi.

Yr oedd Lerpwl yn y chwedegau yn fyrlymus ym mhob ryw ystyr, daeth Lerpwl yn ddinas adnabyddus, ac yr oedd y Cymry yn llawn ei gweithgarwch. Ond yr oedd mantais fawr gan Iris gan fod ganddi fodryb (chwaer ei mam) yn byw yn Croxteth Road. Cyfarfyddais gyda Iris ar aelwyd Mrs Stephens a phan fu farw ei phriod, Mr Charles Stephens gofynnwyd imi weinyddu yn yr arwyl. Yr oedd Mrs Grace Stephens yn meddu ar darlith ddiddorol ar ei bywyd fel Ymwelydd Iechyd â chartrefi'r ddinas a byddai'n mynd ar ei beic. Byddai Iris a hithau yn derbyn budd o weithgarwch ac addoliad Eglwys y Drindod, Princes Road a chafodd glywed y pregethwr grymus Ifor Oswy Davies a sylwodd ar nodweddion pregethu yn ei ysblander. Yn 1970 derbyniodd swydd fel athrawes i Wallasey lle y bu hyd ei ymddeoliad yn 1996. Ymunodd gyda Chapel Cymraeg Rake Lane, a gwn mai ar Nos Fawrth, Ebrill 28, 1970 y mynychodd hi y capel am y tro cyntaf. Y noson honno agorodd y blaenor W. D. Owen drafodaeth ar y Beibl Saesneg Newydd, a gwrandawyd hefyd ar argraffiadau Miss Beti Jones, Prenton o Gynhadledd Genhadol y Barri. Ac yn yr un cyfarfod croesawyd Miss Iris Hughes Jones, Lerpwl i'w plith, a dyma ddechrau deg mlynedd ar hugain o ymroddiad i'r achos.

Yr oedd Capel Wallasey yn dyddiau hynny o dan ofal y Parchedig E. Watkin Jones ac yn meddu ar lawer iawn o weithwyr canol oed ac ifanc fel Mair Pierce Jones, Goronwy Humphreys, Olwen a Gwyn Jones, Mrs Olwen Roose Williams, Lynne Byrne a llawer mwy, ond dyna'r enwau a ddaw i'r cof. Yr oedd Iris Hughes Jones wrth ei bodd ac yn manteisio ar y cyfle i deithio i wledydd amrywiol. Bu y daith a gyflawnodd i Israel yn brofiad mawr iddi yn niwedd y nawdegau gan ei bod erbyn hynny yn ysgwyddo llawer o gyfrifoldebau fel blaenores. Cafodd ei hethol i'r swydd yn 1977, a phan drefnais i Cwrs i Hyfforddi Lleygwyr i fod yng ngofal oedfaon ar y Sul daeth hi yn aelod brwdfrydig. Golygai deithio bob haf o leiaf hanner dwsin o weithiau i ysgoldy Bethel i wrando ar arbenigwyr a fyddai'n trafod agwedd o'r addoliad, a bu'r cwrs yn bodoli am nifer o flynyddoedd yng nghanol yr wythdegau. Golygodd hyn i Iris Hughes Jones fanteisio yn helaeth ar y ddarpariaeth a dod yn gennad yn y gwahanol gapeli. Fel y dywedodd un o'r gwrandawyr wrthyf: 'Mae'n hawdd gwrando arni'.

Bu'n Llywydd yr Henaduriaeth ac yn gynrychiolydd i'r llysoedd. Cofiaf yn dda ei chludo o ymyl gwesty Adelphi yn Lerpwl yr holl ffordd i Gymanfa Gyffredinol yn Llanbedr Pont Steffan a mynd â hi ar ffordd gul na fu erioed arno o'r blaen, trwy Pont y gŵr drwg, Ysbyty Cynfyn, Ffair Rhos, Tregaron ac i Lambed. Cafodd wledd.

Yr oedd hi yn ddylanwad ar lawer ac yn medru gwneud ffrindiau yn hawdd. Bu yn ofalus o deulu o Indiaid sydd bellach wedi ysgaru i Lundain, Caerlŷr, Nottingham a Milton Keynes. Yr oedd ei chefnogaeth i'r Henaduriaeth yn dweud y glir mai person rhyngwladol ydoedd yn y bôn.

Yn nechrau y ganrif hon daeth hi'n argyfwng arnom a phenderfynwyd argymell bod capeli Rake Lane, Wallasey a Salem, Laird Street yn cael ei huno mor fuan ag y bo modd. Yn 2001 dathlodd Capel Rake Lane ganmlwyddiant adeiladau'r capel a oedd ar y ffin rhwng Wallaey a New Brighton. Daeth dau gapel ynghyd, Capel Liscard Road, Seacombe a chapel Egerton Street, New Brighton. Dyma lle y bu J. Saunders Lewis yn derbyn ei fagwraeth grefyddol ac ar ôl cymeryd rhan mewn oedfa yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf dywedodd:

*'And yet I liked that tiny gathering of men and women, all simple and not rich, meeting in an English city to pray and have quiet, and speaking and singing in their own tongue …'*

Trefnwyd oedfa arbennig ar ddydd Sul, 5 Mehefin 2001 yn Rake Lane i gofio'r canmlwyddiant ac i uno'r ddwy gynulleidfa mewn eglwys i'w galw'n Seion, lle bu Iris yn arweinydd, yn Ysgrifennydd a Thrysorydd dibynadwy ac yn gyson o'r mwyaf.

Cafodd oes dda a gwnaeth waith canmoladwy. Trawyd hi yn wael diwedd 2017, bu yn Ysbyty Arrowe Park o 20 Rhagfyr i 11 Ionawr, ac yna daeth allan a chael gofal arbennig iawn gan ei brawd a'r strwythur sydd ar gael i helpu y claf a hynny am 52 o ddiwrnodau. Bu Maureen a Martin O'Sullivan yn noddfa mawr i'w brawd yn ystod y gofal a'r brofedigaeth.

Cymerodd yr arwyl le ar ddydd Iau, 29 Mawrth yng nghapel Seion, Laird Street o dan fy ngofal. Chwaraewyd yr organ gan Mrs Margaret Anwyl Williams o Bethel. Da oedd gweld y Parch Eleri Edwards yn cynrychioli yr Henaduriaeth yn Seion a'r Parchedig Robert Parry yn cynrychioli yn Landican ac ef a arweiniodd y gynulleidfa ar lwybr gweddi. Cydymdeimlir â'i brawd Edgar Hughes Jones yn fawr iawn a da oedd cael gweld pobl wedi teithio yn bell i'r gwasanaethau.

***D. Ben Rees***


***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# Colofn y Myfyrwyr

## Taith GymGym Lerpwl i Ddulyn

### Efa Gwen Evans, Blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Lerpwl yn astudio y Gyfraith.




*(Efa yn y rhes gefn ar y pen chwith, Ffion hefyd yn y rhes gefn y 3ydd o'r chwith yn y llun)*

Wedi wythnosau o edrych ymlaen, roedd hi'n amser o'r diwedd i griw y Gymdeithas Gymraeg yn Lerpwl i hedfan i Ddulyn am benwythnos o chwerthin, rygbi a lot fawr o Guinness!

Ar ôl cyfarfod yn y Brookhouse, cychwynom ar ein taith i'r ynys werdd. Roeddem yn aros yn hostel Abrahams a oedd wedi ei leoli yng nghanol Dulyn, ac wedi oedfa hir i'r bechgyn tra oedd y merched yn ymbincio, cychwynodd pawb allan am noson feddwol yng nghanol y ddinas. Roedd y ddinas yn fwrlwm o Gymry ifanc ac felly cawsom ni oll gyfle i ddal i fyny gyda'n ffrindiau o brifysgolion eraill. Fitsimons ger Temple Bar oedd y bar mwyaf poblogaidd ymysg myfyrwyr Cymreig ar y nos Wener. Ar ddydd y gêm fawr roedd bar O'Connell's yn orlawn gyda myfyrwyr Cymru yn fôr o grysau prifysgolion gwahanol. Ac er nad oedd llwyddiant ar y cae, doedd hwyliau neb wedi cael eu heffeithio gyda'r dathlu yn mynd ymlaen tan oriau man y bore.

I'r rhai nad oedd yn dioddef gormod ar ôl nos Sadwrn, roedd cyfle i grwydro o gwmpas y ddinas ddydd Sul. O garchar Kilmainham i stordy Guinness, a digonedd o siopa, roedd digon i'w wneud i bawb yno. Ac felly ar ôl penwythnos i'w chofio, roedd hi'n amser mynd yn ôl i wynebu'r darlithoedd, seminarau a'r traethodau. Mae'n sicr fod pawb yn edrych ymlaen at ein taith i'r Alban yn 2019!

*(Stori gan Ffion ar dudalen 11)*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

***Ffion Roberts, Ail flwyddyn yn Prifysgol Lerpwl yn astudio Accounting and Finance- Cyfrifon a Chyllid***

Mis Chwefror roedd yna gyfle i ni fel y Gymdeithas Gymraeg fynd ar drip i Ddulyn dros benwythnos Cymru v Iwerddon yn y twrnament Chwe Gwlad. Roedd cael mynd i Ddulyn fel rhan o drip y Gymdeithas Gymraeg yma yn Lerpwl yn brofiad grêt. Es i ddim ar y trip i Gaeredin flwyddyn dwytha i wylio'r rygbi ac felly dyma fy nhro cyntaf ar drip o'r fath. Roedd y trip yn gyfle i ni fyfyrwyr ddod at ein gilydd unwaith eto, a thro yma cael gadael Lerpwl ac mynd i wlad arall. Bu'r rhanfwyaf ohonom hedfan o faes awyr Lerpwl ar y nos Wener. Aethom yn syth i'r hostel wedi cyrraedd Dulyn a dad-bacio cyn mynd syth allan i gyfarfod gyda chriwiau'r prifysgolion eraill. 19 ohonom oedd yn aros yn yr hostel. Roedd y gem yn cychwyn am 2 ar y prynhawn dydd Sadwrn, felly cawsom ginio buan ac aethon ni allan i chwilio am rywle i wylio'r gêm, pawb yn eu crysau. Roedden ni wedi cael crysau arbennig ar gyfer y daith, pob un ohonom gyda'n enw ar gefn y crys a logo y Gymdeithas Gymraeg yma'n Lerpwl ar y tu blaen. Roedd dod o hyd i le i wylio'r gêm yn anoddach nag yr oeddem wedi ei rhagdybio gyda llawer o'r tafarndai yn llawn ac eraill ond yn gadael unigolion dros 21 mlwydd oed i fewn. Cawsom le i wylio'r gêm mewn tafarn o'r enw O'Connells, roedd y dafarn wrth ochor yr afon. Roedd pawb yn barod i drio peint o Guinness yno, ond roedd rhai yn ei hoffi lawer mwy nag eraill. Er na cholli a wnaeth ein tîm cenedlaethol, sgôr o 37 i Iwerddon a 27 i ni, roedd hi'n gêm agos hyd y diwedd ac felly roedd yr atmosffer yn hwylus iawn yno. Roedd pawb yn canu'r anthem, ymysg rhai o'r hen ffefrynau fel Calon Lan. Yn dilyn gêm Cymru ac Iwerddon roedd gem Lloegr a'r Alban ac felly gwyliodd pawb y gêm yna hefyd. Doedd y rhanfwyaf ohonom ddim yn hedfan yn ol i Lerpwl tan y nos Sul, ac felly roedd gan bawb y diwrnod yn Nulyn. Bu bawb wahanu i griwiau llai ar y dydd Sul, pawb eisiau gwneud pethau gwahanol. Roedd yna ddigon o ddewis o bethau i'w wneud yno. Aeth rhai i ymweld a'r Ffatri Guinness, aeth eraill i ymweld â'r carchar 'Kilmainham Gaol', tra bu rhai yn y dafarn hynaf yn Nulyn. Yn anffodus roeddwn i wedi blino gormod ar y dydd Sul, felly treuliais i y dydd Sul yn yfed paneidiau ac yn hel fy mol. Roedd Dulyn yn ddinas fendigedig ac rwyf wedi penderfynu dychwelyd yno i ymweld a'r holl atyniadau - ond gyda phen clir tro nesaf dwi'n meddwl.

---

*Ysgrif Coffa*

# Mrs NANCY JONES

## (1921-2018), Penarlâg a gynt o Lerpwl

**Un o Gymry Lerpwl oedd Mrs Nancy Jones ac yr oedd bob amser yn ymfalchïo yn y ffaith honno. Ganwyd hi ar 27 Gorffennaf 1921 yn ferch i Florence ac Evan Lloyd. Ef yn enedigol o Gerrigydrudion a hithau yn hannu o Ddinbych. Fel miloedd o rai eraill daethant i wella'i byd a chael gwaith a chymdeithas Gymraeg lewyrchus i'w diddori. A daeth Capel Presbyteraidd Waterloo yn ganolbwynt eu bywydau, a chafodd Nancy ei hyfforddi yn yr iaith Gymraeg a bywyd capel ac Ysgol Sul. Meithrinwyd hi ym myd eisteddfod y capel a'r cylch, a chofiai am Eisteddfod Plant Bootle a gynhelid yn Neuadd y Ddinas. Dysgai ei thad hi ar gyfer cystadlaethau adrodd, ac mewn dyddiau anodd, prynwyd piano fel y medrai ddatblygu ei doniau cerddorol. A daeth Nancy Lloyd yn gryn gantores o fewn yr Ysgol, sef Ysgol Merched Litherland, ac ar ôl gadael yr Ysgol fel aelod o Undeb Gorawl Cymry Lerpwl a hefyd Seindorf Philharmonig Lerpwl. Cymerodd ran mewn cyngerddau pwysig gyda Syr Malcolm Sargent yn arweinydd. Byddai yn ennill yn gyson yn y cystadlaethau cerddorol fel soprano o'r radd flaenaf.**

**Gadwodd yr ysgol i weithio mewn ffatri lle y dysgodd sgiliau arbennig ym myd crochenwaith ac embroidery. Bu'r teulu ynghanol y bomio trwm ar Lerpwl ym mai 1941 a galwyd hi i fyny erbyn Mawrth 1943 yr oedd hi'n aelod o'r ATS. Cafodd fywyd gwahanol a mwynhaodd y profiad.**

**Ar ddiwedd y Rhyfel cafodd waith gyda chwmni Woolworth ac ail gydiodd yn ei bywyd cerddorol. Soniai y *Daily Post* amdani yn ennill yn Eisteddfod Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Lerpwl *'Nancy Lloyd won first prize and a standing ovation for her solo'.***

**Yn 1947 a hithau ar ei gwyliau yn Nhalsarnau cyfarfu â'r un a ddaeth yn**



***Nancy Jones ar ei phen-blwydd yn 95 oed***

**gymar iddi, Jack Jones, a phriodwyd hwy yn 1951 gan symud i fyw i Wrecsam. Yno y ganwyd y ddwy ferch Glenys a Bethan, ac yn 1964 symudodd y teulu i Benarlâg gan fod hynny yn hwyluso pethau gan fod ei phriod yn gweithio yng ngwaith dur Shotton. Ymaflodd i fywyd y pentref hanesyddol, daeth yn aelod o Gantorion Penarlâg gan roddi cyfle da i deithio i gyngherddau yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor. Cefnogai ei phriod oedd yn aelod o Gôr Meibion y Fflint. Yr oedd bywyd yn ddiddorol, a byddai yn mwynhau garddio, coginio, gwaith llaw, darllen a ysgrifennu. Gan fod ganddi ddiddordeb mawr mewn materion cyfoes ysgrifenai yn gyson lythyron i'r *Daily Post* a hefyd i'r Aelodau Seneddol, Irene White a Barry Jones. Gofalai yn dyner am ei theulu, a chafodd y ddwy ferch gyfleon addysgol na chafodd hi, cyfleon y byddai wedi gwneud defnydd da ohon ynt. Yr oedd hi bob amser yn hapus, y teulu yn bwysig, yn mwynhau hiwmor a hwyl a gwyliau yng Nghaerdydd gyda'r merched a'r teuluoedd.**

**Bu marwolaeth ei phriod yn 2001 yn ergyd drom ond daliodd yn ffyddiog gan ddibynnu ar y ddwy ferch, Glenys ac Alun, Bethan a Marc, a'i pherthnasau agos Megan ac Olwen (Glan Conwy), Selwyn a Meirwen (Llanrug) a Dilys o Fangor, a ffrindiau da ar lannau Dyfrdwy. Cafodd bleserau da a chyrraedd 90 oed yn ddi-drafferth. Ond bu'r bum mlynedd diwethaf yn anoddach o lawer, gan iddi syrthio yn 2011 a gorfod cael clun newydd, ac yn 2013 cwymp arall a derbyn niwed i'w phen. Daeth drosto yn wyrthiol. Gwaethygodd ei golwg ac amddifadu Nancy o lu o'i diddordebau, ond daliai i fwynhau gwrando miwsig a gofalu am ei chartref. Bu ei ffydd gadarn yn Nuw, etifeddiaeth capel Waterloo, yn ei chynnal yn y dyddiau blin. Ac yn y deunaw mis diwethaf byddai'n dweud yn aml ar ôl codi o'i gwely: 'Rhaid i ni fynd y bore ma i'r gwasanaeth yng nghapel Waterloo'. Yr oedd ei optimistaieth yn ei chadw yn ddiddig a'i magwraeth yn gwneud iddi fod yn ddiolchgar am 'y pethau bychain' a bwysleisiai Dewi Sant yn ei bregeth enwog. Cerddodd ar 9 Mawrth 2017 i waelod y ffordd Penlan Drive a llawenhau yn y gamp. Eisteddodd y tu allan i'r tŷ ynghanol cennin Pedr ac ar y ffôn i'w merch Bethan y noson honno dywedodd 'Rwyf mor hapus. Rhoddais fy mreichiau oamgylch y byd y bore 'ma a rhoddi croeso iddo'. Dyna fel y cofiwn amdani a bu'r arwyl ar ddydd Iau, 8 Mawrth o dan fy ngofal yn ei chartref ac oddi yno i Amlosgfa Penbtrebychan lle y daeth tyrfa gref ynghyd i gofio mam dda, gwraig gefnogol, perthynas garedig, dinesydd craff a chantores eneiniedig. Gofynnodd i mi yn y flwyddyn 2008 a fyddwn i yn barod i gymeryd ei hangladd a dywedais y byddai'n anrhydedd o'r mwyaf. Deg mlynedd yn ddiweddarach daeth y merched a'r trefnwyr angladdau i dorri'r newydd i mi a balch ydwyf o fedru cadw'r addewid.**

***D. Ben Rees***

# CROESAWU EIN CYD-GYMRY



*Alun Ffred Jones, Dyffryn Nantlle ac Ifor Griffith yn y Ganolfan*



*Gethin Jones gyda'r offeryn*



*Gethin Jones ac Eryl Jones ar ddiwedd y ddarlith*



*Wena Evans yn siarad gyda Ioan Roberts (golygydd y gyfrol)*



*Mared, Ela a Gwenno yn Oedfa Gŵyl Ddewi Cymry'r Glannau (4 Mawrth)*

## ATEBION Y CWIS

**A. Hen a Newydd:** 1, Alec; 2, Alice; 3, Gwyndaf; 4, Wyndham; 5, Edna; 6, Islwyn; 7, Dai; 8, Wendy; 9, Ieuan; 10. Nesta.

**B. Gwneud geiriau:** CYFIAWNDER. Cadwr, cadwyr, canfed, canwyr, carden, caewr, caewyr, caren, carwden, canfed, canrif, canwr, canwyr, caren, cefndir, cefni, cerdyn, cewri, cenadwri, cerfiad, crand, crawen, crawn, crawni, cread, crwyn, crynfa, cneifdy, cnawd, cryniad, cnafer, cwafr, cwynad, cywren, cydawr, cydenw, cydfarn, cyfair, cyfandir, cyfenwad, cyfenw, cyfenwi, cyfnewid, cynfer, cyfran, cyfrin, cynifer, cywain, cywar, cywir.

**C. Gair am Air:** Llan, Llawn, awn, llanw, llawnder, derw, erw, wad, adnod, nod, nodyn, dyn, dyna, yna, ynad, nad, aden, enw



*Golwg ar gefnogwyr Noson Gŵyl Ddewi*